

Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Mawrth 2021

Amser: 09.04 – 09.18

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AS Mark Isherwood AS Siân Gwenllian AS Caroline Jones AS
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru Bethan Garwood, Dirprwy Clerc



1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes at y cynnig i atal y Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn caniatáu ar gyfer cynigion newydd ar gyfer y ddwy eitem ganlynol ddydd Mawrth:

- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Pwyllgor Busnes hefyd at dynnu'r eitem ganlynol yn ôl, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher:

- Gorchymyn Etholiadau Cymru (Darpariaethau Amrywiol) 2021 (15 munud)

Dywedodd y Llywydd wrth y Pwyllgor Busnes y byddai hi a'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio o'r Siambr ar y ddau ddiwrnod yr wythnos hon.

Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.05pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.15pm.

4 Deddfwriaeth

4.1 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes nad oedd amser i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, gan fod y Gorchymyn wedi'i drefnu i'w drafod ar 24 Mawrth.

4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am ragor o wybodaeth am amserlen y Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd a chytunodd y Trefnydd i ddsbarthu nodyn gyda mwy o wybodaeth.

5 Pwyllgorau

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr, ac y bydd yr argymhellion yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Busnes newydd.